## Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Wener Mai 12fed 2017 yn Neuadd y Dref, Dinbych am 7 o'r gloch.

**Presennol:** Cynghorwyr Margaret Bowe, Roy Tickle, Rob Parkes, Colin L Hughes, Gaynor Wood, Philip Stevens, Catherine Jones, Marilyn Jones, Dyfrig Berry, Rhys Thomas, Lara Pritchard, Gwawr Cordiner & Glenn Swingler; Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Alyn Ashworth. Cofnodwyd nifer o ymddiheuriadau oddi wrth westeion eraill a wahoddwyd.

1 **Gweddïau:** Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan Gaplan y Maer, y Parchedig Ganon Pauline Walker.

2. **Adroddiad Blynyddol y Maer:** Cyflwynodd y Maer, y Cyng Margaret Bowe, adolygiad o'r flwyddyn ddinesig 2016 / 2017 gan gyfeirio at uchafbwyntiau'r prif ddigwyddiadau oedd wedi cymryd lle.

3. **Ethol Maer:** Cynigodd y Cyng Catherine Jones, eiliwyd gan y Cyng Rob Parkes, a phenderfynwyd fod y Cyng Roy Tickle yn cael ei ethol yn Faer am y Flwyddyn Ddinesig 2017 / 2018.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Roy Tickle y Datganiad Statudol yn Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus Barnwr Michael Baker, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Cyng Margaret Bowe Cadwyn y Swydd i'r Cyng Roy Tickle.
Cyflwynodd y Cyn Cymar, Mr James Bowe, Cadwyn Swydd Faeres i'r Cyng Gaynor Wood-Tickle.

4. **Cyflwyniad:** Cyflwynodd y Maer, Blac Dinesig a Bathodyn Cyn Maer Margaret Bowe i gofio am ei flwyddyn yn y swydd. Cyflwynodd y Maer, Fathodyn Dinesig i James Bowe i gofio am ei flwyddyn yn y swydd.

5. **Pleidlais o Ddiolch:** Cynigodd y Cyng Catherine Jones bleidlais o ddiolch i Margaret Bowe am y modd yr oedd hi wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn 2016 / 2017.

6. **Adroddiad y Maer:** Diolchodd y Maer newydd i'w Chynigydd a'i Eilydd ac yna anerchodd y cyfarfod.

7. **Ethol Dirprwy Faer:** Cynigodd y Cyng Roy Tickle, eiliwyd gan y Cyng Marilyn Jones a phenderfynwyd fod y Cyng Catherine Jones yn cael ei hethol yn Ddirprwy Faer am y Flwyddyn Ddinesig 2017 /2018.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Catherine Jones y Datganiad yn Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus Barnwr Michael Baker, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Maer Cadwyn y Swydd i'r Cyng Catherine Jones.
Cyflwynodd y Maer Cadwyn y Dirprwy Faeres i Lisa Cluckie.

8. **Adroddiad Presenoldeb Cynghorwyr am y flwyddyn 2016 / 2017:** Cyfeiriodd y Maer at bresenoldeb blwyddyn fwrdeistrefol 2016/2017. Roedd dau gynghorydd sef y Cyng Colin L Hughes a Roy Tickle wedi llwyddo ar bresenoldeb 96%. Mabwysiadwyd yr adroddiad presenoldeb.

9. **Penodi Caplan y Maer:** Penododd y Maer y Parchedig Ganon Pauline Walker yn Gaplan am y Flwyddyn Ddinesig 2017/2018.

10. **Gwasanaeth Dinesig:** Datganodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn Eglwys y Santes Fair, Dinbych, Dydd Sul 9fed o Orffennaf 2017 am 4 o'r gloch y prynhawn.

11. **Cyflwyniad Bwrdeisiwr Anrhydeddus:** Derbyniodd Mrs Dorothy Bartley, ar ran y diweddar Cyng Raymond Bartley tlws crog Bwrdeisiwr Anrhydeddus gan y Maer newydd ei ethol, y Cyng Roy Tickle.

12. **Anerchiad gan y Maer i'r teulu Bartley:** Dywedodd y Cyng Roy Tickle ei fod yn fraint i gyflwyno Mrs Dorothy Bartley gyda'r tlws crog Bwrdeisiwr Anrhydeddus**.**

13. **Anerchiad gan deulu Bartley:** Darllenodd Jenny Barlow (Clerc y Dref) ychydig eiriau ar ran y teulu Bartley.

14. **Y Fendith:** I ddod â'r gweithgareddau i ben, traddodwyd y Fendith gan Gaplan y Maer y Parchedig Ganon Pauline Walker.